

Cyngor Cymuned Bodedern



Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd
yng Nghanolfan Bro'r Ysgol, Bodedern,
Nos Fawrth, 22 Awst 2017
am 7 yr hwyr.

1. Croeso ac ymddiheuriadau.

Presennol:

Mr A Jones (Cadeirydd), Mr Aled Ifan AI, Mrs Linda Jones LJ, Mr Victor Owen VO, Mrs EAB Thomas EABT, Mr OG Roberts OGR, Cynghorwr John Griffith JG.

Ymddiheuriadau. Cynghorwr Ken Huws mewn cyfarfod arall, Ms Cari Jones ar wyliau, Dr. Edward Jones ar wyliau, Miss JARoberts ddim ar gael.

2. Deiseb a dderbyniwyd yng nghyfarfod Gorffennaf 2017 ac ymateb.

Cyflwynwyd deiseb yng nghyfarfod mis Gorffennaf gan Mr Arfon Roberts, garej Bryn Eira, Bodedern yn cynnig "pleidlais o ddim hyder" yn y cadeirydd. Yn ymuno a Mr Roberts yn y cyfarfod yn cyflwyno'r ddeiseb oedd Ms Joanne Ferry, Mrs Janet Evans, Mr John Hilton, Mr Arnold Griffith, Mr Ogwen Hughes, Mr Terry Warner ac un unigolyn arall.

Wedi cael amser i edrych dros y ddeiseb ac ar ol sylweddoli natur y sylwadau a wnaethwyd roedd y clerc wedi ei gyrru ymlaen i Un Llais Cymru am gyngor cyfreithiol. Roedd y cyngor cyfreithiol yma wedi ei yrru ymlaen i'r aelodau, ac mae crynodeb isod:

"Pe byddai'r Cadeirydd yn dymuno mynd ymlaen gyda champau cyfreithiol, awgrymwyd y gallai gychwyn drwy ofyn am lythur o rybudd gan gyfreithiwr i'w anfon i'r person/personnau sydd yn arwain yr ymgyrch yn ei erbyn.

Awgrymwyd hefyd y dylai'r Cadeirydd ystyried mynd at yr heddlu i adrodd am y digwydiadau diweddar cyn ystyried mynd at gyfreithiwr. Byddai'r ddeiseb yn gallu cael ei ddefnyddio fel tystiolaeth o'r ffaith fod gan y Cadeirydd le i honi ei fod yn cael ei "harassio."

Dylai'r Cyngor ystyried y ddeiseb fel mater ar yr agenda yn eich cyfarfod nesaf. Os ydynt yn gefnogol i'r Cadeirydd yna dylai hynnu gael ei gyfleu yn glir. Gallwch hefyd ystyried anfon llythur i'r person sy'n arwain yr ymgyrch i gyfleu nad ydi'r Cyngor yn hapus gyda'r modd y mae'r grwp yn trin y cadeirydd, ac yn ystyried y sylwadau yn y ddeiseb yn annerbyniol."

Clerc/ Clerk:
Ms. Rhian Wyn Owen,
Aber, 5 Glanllyn, Llanfachraeth,
Ynys Môn, LL65 4UW.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940
Nos /evening: (01407) 749 162
Symudol /mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com

Cyngor Cymuned Bodedern



Cyn mynd ymhellach, ac at ddibenion ddiueddrwydd ac yn absenoldeb yr is-gadeirydd, fe gymerodd Mrs EAB Thomas y gadair ar gyfer pleidlais.

Y cwestiwn oedd:

Ydi aelodau Cyngor Cymuned Bodedern yn gefnogol o'r Cadeirydd?

Y rhai sydd yn gefnogol i godi llaw.

Fel y canlynol:

Mr Aled Ifan	yn gefnogol	
Mrs Linda Jones	yn gefnogol	
Ms Cari Jones	yn gefnogol	(ddim yn bresennol ond wedi gyrru neges o gefnogaeth)
Dr Edward Jones	yn gefnogol	(ddim yn bresennol ond wedi gyrru neges o gefnogaeth)
Mr Victor Owen	yn gefnogol	
Mr O G Roberts	yn gefnogol	
Miss J A Roberts	heb bleidleisio	(ddim yn bresennol)
Mrs E A B Thomas	yn gefnogol	

Yn dilyn y bleidlais pasiwyd y gadair yn ol i Mr Adrian Jones, gyda cefnogaeth unfyrdol yr aelodau oedd yn bresennol.

Gwnaethwyd y sylwadau canlynol fel ymatebion i'r ddeiseb:

O'r enwau oedd wedi eu cofnodi ar y ddeiseb, roedd 22% ohonynt gan bobl oedd yn byw tu allan i bentref Bodedern, gyda rhai ohonynt o Fae Trearddur, Caergybi, Llanfachraeth, Y Fali, Moelfre, Llannerchymedd, Llanfaelog, Rhydwyn a sawl ardal arall thu allan i ffiniau'r Plwyf. Yn amlwg roedd nifer helaeth gyda dim gwybodaeth ynglyn a'r amgylchiadau presennol ac mwy na thebyg ddim hyd yn oed yn adnabod y cadeirydd, nac gyda unrhyw gysylltiad i Fodedern heblaw efallai eu bod yn mynychu busnes lleol.

Mynegwyd siomodigaeth gryf am i bobl arwyddo'r ddeiseb ar ddau bwynt gwan iawn. Yn gyntaf, nid oedd y pamffledi a oedd i'w dosbarthu yn cael eu dosbarthu fel rhan o gyfrifoldeb gwaith y cyngor cymuned ond fel gwirfoddolwr pwyllgor apel Eisteddfod. Yn ail, fel a eglurwyd yn flaenorol nid oedd y cyfarfod wedi ei gau yn fuan, ac os oedd unrhyw un a cwestiynnau pellach roedd ganddynt gyfle i drafod gyda'r swyddogion. Ymhellach i hyn, nodwyd hyd yn oed os byddai'r ddau bwynt yma yn ddilys, ni ydynt, wrth unrhyw fodd, yn ddigon difrifol i warantu pleidlais heb hyder yn erbyn y Cadeirydd. Yn wir, maent yn ddau bwynt mor wan nid ydynt yn cael eu hystyried yn deilwng o drafodaeth. Yn dilyn, mae'n amlwg iawn mae dim deiseb yn erbyn y Cadeirydd oherwydd unrhyw agwedd o'i waith fel Cadeirydd yw'r ddeiseb, ond agwedd arall o ymgyrch personol gan rhai aelodau o'r gymuned yn erbyn y Cadeirydd am resymau hollol annilys.

Clerc/ Clerk:
Ms. Rhian Wyn Owen,
Aber, 5 Glanllyn, Llanfachraeth,
Ynys Môn, LL65 4UW.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940
Nos /evening: (01407) 749 162
Symudol /mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com

Cyngor Cymuned Bodedern



Nodwyd fod llawer o sylwadau ar y ddeiseb, y rhan helaeth ohonynt yn enllibus, amharchus, anghywir ac hollol annerbynniol. Yn unol a'r cyngor cyfreithiol, cynigwyd i ysgrifennu at yr unigolion ac hefyd gwneud cwyn i'r heddlu.

Er hyn, fe fynegodd y Cadeirydd ei ddymuniad i beidio a cymryd y camau hyn. Ar ol llwyddiant yr Eisteddfod credai fod awyrgylch braf yn y pentref, ac roedd yn dymuno i'r gymdeithas oll gael budd o hyn a symud ymlaen gyda ewyllys da ac ysbryd cymunedol. Nododd hefyd ei fod wedi derbyn llawr o alwadau ffon ac ymweliadau gan aelodau eang o'r gymuned gyda negesaon o gefnogaeth a oedd yn galonnogol iawn.

Mynegodd yr aelodau eu hedmygedd yn gyntaf am ei ymateb pwyllog ac am ymddwyn mor fonheddig er gwaethaf ei gam-drin, ac yn ail am ei haelioni tuag at y rhai a oedd wedi ei gamgymryd. Nodwyd ei fod yn ymdrin a nhw gyda llawer mwy o barch nac maent wedi ddangos iddo. Pwysleisiwyd yn gryf fod ganddo achos a hawl i fynd at yr heddlu a gyrru llythr cyfreithiol, ac byddai hyn yn gam hollol resymol yn wyneb y cam driniaeth, ond er hyn roedd am roi y gymdeithas gyfan cyn diddordebau fo'i hun ac aberthu ei hawl i amddiffyn ei enw da er lles y gymuned eang. Mynegodd a phwysleisiodd yr aelodau eu hedmygedd diffuant a'u cefnogaeth iddo wrth fynd ymlaen.

Clerc/ Clerk:
Ms. Rhian Wyn Owen,
Aber, 5 Glanllyn, Llanfachraeth,
Ynys Môn, LL65 4UW.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940
Nos /evening: (01407) 749 162
Symudol /mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com